# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 27 TACHWEDD 2023, ym MedRus 3, Penbryn.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Ms Kate Eden (o gofnod 22 ymlaen); Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA; Mrs Ellen ap Gwynn; Dr Louise Marshall; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd UMAber; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio; Mr Dewi Day, Ymgynghorydd yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (ar gyfer cofnod 28.4); Ms Andrea James, Cyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety (ar gyfer cofnod 29 a 30); Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Rhian Linehan, Partner Busnes Cyllid (ar gyfer cofnod 25); Mathew Clark, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (ar gyfer cofnod 25); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol, (ar gyfer cofnod 29); Mr Nick Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Gweithredol (ar gyfer cofnod 29 a 30); Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor a Ms Rhuanedd Richards.

## 16. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Croesawyd Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

Croesawyd Claire Vaughan yn ôl i'r Cyngor.

Arfarniadau'r Cyngor
Yn sgil y trafodaethau gyda darpar Gadeirydd y Cyngor, trefnir cyfarfodydd ym mis Ionawr 2024.

## 17. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Nododd y Cadeirydd wrthdaro mewn perthynas ag eitem 14 yr Hen Goleg, oherwydd ei rôl ar Bwyllgor Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru.

## 18. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Hydref 2023 (COU2324-021).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

## 19. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2324-022).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd.

## 20. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-023).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor pryd y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:

    2.1. <u>Gweithred ryddhau ar gyfer morgais</u>
    Roedd Pridiant Tir ar eiddo oedd yn cael ei werthu, nad oedd y Brifysgol yn berchen arno. Fodd bynnag, arferai un o weithwyr y Brifysgol fyw yn yr eiddo, ac ar un adeg, roedd y Brifysgol yn ariannu morgais ar y tŷ. Mae'r Pridiant Tir yn rhwymedigaeth ar berchennog yr eiddo i ad-dalu'r Morgais hwnnw. Nid yw'r Brifysgol yn berchen ar yr eiddo, ac ni all y Brifysgol na'i chyfreithwyr blaenorol ddod o hyd i unrhyw gofnod o'r Pridiant Tir. Derbyniwyd cais gan gyfreithwyr y prynwyr newydd i dynnu'r Pridiant o'r Teitl.

## 21. GOHEBIAETH

1. <u>Llythyr gan David Blaney – Caniatâd i gynyddu trothwy ymrwymiadau ariannol.</u>

    DERBYNIWYD

    Llythyr oddi wrth David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC (COU2324-024).

    NODWYD

    1. Roedd y cynnig wedi'i gymeradwyo'n flaenorol gan y Cyngor, a chyflwynwyd y llythyr er mwyn cyflawnrwydd.

    **PENDERFYNWYD**

    2. Nodwyd yr ohebiaeth gan yr aelodau.

## 22. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2324-025).

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad o'r Senedd; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.
2. Y prif feysydd a oedd yn peri pryder oedd cyllid a denu myfyrwyr, sef y prif ffocws ar gyfer Gweithrediaeth y Brifysgol ar hyn o bryd.
3. Nodwyd y gwaith nodedig ar barasitoleg gan yr Athro Karl Hoffman a'r cyflawniad sylweddol o Wobr Pen-blwydd y Frenhines. Gwnaeth yr aelodau longyfarch y tîm.
4. Cynhaliwyd dau ddiwrnod agored yn ddiweddar, gyda lefelau presenoldeb da.
5. Cymeradwyodd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ddau fraslun o achosion busnes ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru. Nid hwn oedd y cam olaf, ac mae gan y Brifysgol gyfle i dynnu'n ôl.
6. Diolchodd yr Is-Ganghellor i'r Cyngor am eu cefnogaeth yn ystod ei chyfnod yn y Brifysgol. Diolchodd hefyd i'r tîm Cyfathrebu a oedd wedi gweithio'n galed i ddatblygu ymgysylltiad lleol a chenedlaethol â'r Brifysgol.

**PENDERFYNWYD**

7. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 23. MATERION UNDEB Y MYFYRWYR

1. <u>Adroddiad gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Bayanda Vundamina, Llywydd UM (COU2324-026)

   NODWYD

   1. Mae enghreifftiau o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys ymgyrchoedd gwrth-hiliaeth; iechyd meddwl a lles; dathliadau hanner can mlwyddiant UMCA; a chefnogi myfyrwyr mewn gwahanol gyd-destunau.
   2. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Senedd, lle cymeradwywyd polisïau newydd, gan gynnwys sefydlu rôl Swyddog Traws; cryfhau cefnogaeth UM i streiciau; lobïo'r Brifysgol i ddisodli'r cerflun o Edward VIII; ac ystyried y stigma a'r heriau i fyfyrwyr sy'n ymwneud â gwaith rhyw.
   3. Yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon gwelwyd dros 140 o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd.

4. Gwelodd UMCA gynnydd yn y niferoedd sy'n ymgysylltu â’r digwyddiadau croeso; cynnydd yn nifer y rhai sy’n cofrestru ar gyfer Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; a mynychodd dros 500 o fyfyrwyr ledled Cymru y Ddawns Ryng-golegol flynyddol yn Aberystwyth.

5. Pasiodd Undeb y Myfyrwyr bolisi i fynd i'r afael â'r stigma a'r heriau i fyfyrwyr sy'n ymwneud â gwaith rhyw. Nid oedd wedi cael ei nodi fel mater yn Aberystwyth, ond roedd y swyddogion yn ymwybodol ei fod yn fater a oedd yn cael ei drafod ar draws y sector ac roeddent eisiau gwneud safiad cadarnhaol.

6. Cefnogwyd 142 o fyfyrwyr gan y gwasanaeth cynghori gyda thros 5400 o ryngweithiadau â gwybodaeth a chyfarwyddyd ar-lein. Trafododd yr aelodau y gronfa caledi a nododd swyddog y Brifysgol y byddai'n cael ei hadolygu yn ystod Pasg 2024, ond nad oedd wedi nodi cynnydd sylweddol mewn gwariant o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

2. Cod Ymarfer

DERBYNIWYD

Adroddiad gan (COU2324-027)

NODWYD

1. Roedd y diwygiadau arfaethedig yn bennaf yng nghyswllt aelodaeth o Undeb y Myfyrwyr, ac roeddent wedi cael eu hystyried gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Undeb y Myfyrwyr.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y diwygiadau i’r Cod Ymarfer.

3. Siarter y Myfyrwyr

DERBYNIWYD

Adroddiad gan (COU2324-028)

NODWYD

1. Cafodd Siarter y Myfyrwyr ei hadolygu a'i diwygio ym mis Awst 2022, mewn ymateb i ganllawiau ychwanegol gan CCAUC. Cafodd darpariaethau'r Siarter eu hadolygu'n ddiweddar mewn ymgynghoriad ag Undeb y Myfyrwyr, ac nid oedd angen unrhyw ddiweddariadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2023–24.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adolygiad diweddaraf o Siarter y Myfyrwyr gan yr aelodau.

**24. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sion Anthony Jones, Dadansoddwr Gwybodaeth Fusnes, Cynllunio (COU2324-029).

NODWYD

1. Trafododd yr Aelodau nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn Gymraeg, yn benodol mewn ymateb i ymholiad ynghylch lleihau nifer o gynlluniau gyda modiwlau cyfrwng Cymraeg. Eglurwyd nad oedd y cynlluniau dan sylw wedi recriwtio unrhyw fyfyrwyr, a bod y modiwlau cyfrwng Cymraeg yn dal i gael eu haddysgu ac ar gael ar gynlluniau presennol eraill. Bydd y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei chadw o dan adolygiad.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd y diweddariad am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol gan yr aelodau.

**25. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Cynigion ar gyfer mynd i'r afael â'r rhagolygon o'r gyllideb ar gyfer 2023-24</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2324-030).

NODWYD

1. Diolchwyd i'r tîm am eu hymdrechion sylweddol.

2. Bydd cyrraedd diffyg o £4.3 miliwn yn heriol ac mae angen rhagor o waith i gyrraedd y targed. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau arbedion o £6.7 miliwn o leiaf oherwydd y cynnydd mewn costau ac amgylchedd denu myfyrwyr heriol.

3. Mae'r gyllideb yn ddarbodus, ac nid oes unrhyw ragdybiaethau wedi'u gwneud ar gyfer derbyn myfyrwyr ym mis Ionawr oherwydd y darlun heriol ar draws y sector.

4. Yn sgil cadarnhad o nifer terfynol y myfyrwyr a dderbyniwyd, mae angen arbedion ychwanegol o £1 miliwn, oherwydd y diffyg mewn incwm gan fyfyrwyr cofrestredig a'r effaith ar lety myfyrwyr yn sgil hynny. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn parhau i fod ar ddiffyg o £4.3 miliwn, ond mae'r risg yn cynyddu.

5. Denu myfyrwyr yw'r sbardun mwyaf arwyddocaol ar gyfer y diffyg, er bod angen ystyried y broses o gynllunio niferoedd y myfyriwr. Mae materion yn ymwneud â'r ffermydd a'r cyfleustodau, sydd hefyd yn cael sylw.

6. Mae nifer o sefydliadau yn wynebu heriau ariannol tebyg a'r naratif negyddol yng nghyswllt graddau isel eu gwerth.

7. Yn dilyn y drafodaeth yn niwrnod strategaeth y Cyngor ym mis Hydref, roedd y swyddogion yn parhau i fod yn hyderus na fydd yr arbedion arfaethedig yn effeithio ar y strategaeth. Bydd adolygiad o'r ffermydd yn sicrhau arbedion yn y blynyddoedd i ddod, er bod heriau o hyd yn ystod y flwyddyn.

8. Llongyfarchwyd y tîm am y gwaith sylweddol a wnaed dros yr wythnosau diwethaf, yn arbennig.

9. Mynegodd aelodau o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad eu pryder am yr her y byddai dod o hyd i £1miliwn yn ychwanegol yn ei chyflwyno. Nododd y Cadeirydd

y sgwrs mewn perthynas â chael y cydbwysedd cywir rhwng y risgiau amrywiol sy'n ymwneud ag ymchwil a phrofiad y myfyrwyr.

10. Dylai newidiadau i bensiwn USS a gostyngiadau yn y cyfraniad gan gyflogwyr greu arbedion o tua £240,000. Mae'n sefyllfa symudol, a darperir diweddariad pellach yng ngwanwyn 2024.

11. Trafododd yr aelodau yr effaith ar staff a morâl. Mae cyfran fawr o gostau'r Brifysgol yn gysylltiedig â staffio. Mae swyddi gwag wedi'u cynnwys yn y gyllideb arbedion, ond nid yw'n rheolaidd felly mae sgyrsiau yn parhau gyda phenaethiaid adrannau. Bydd gohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei hanfon at yr holl staff, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor. Mae cyfarfod i'r holl staff wedi'i drefnu i roi gwybod am y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor.

12. Byddai graddfa'r arbedion yn rhy fawr i gyrraedd cyllideb â gwarged. Bydd yr incwm sylfaenol a'r rhagolygon o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu haddasu yn seiliedig ar ragdybiaethau denu myfyrwyr diwygiedig. Cwestiynodd yr aelodau yr effaith ar ragdybiaethau'r cynllunio ariannol i'r 5 mlynedd nesaf, a'r posibilrwydd o ddychwelyd i gyllidebau â gwarged cynaliadwy, yn ogystal â sefyllfa'r llif arian. Mae'r amgylchedd presennol yn creu ansicrwydd, yn enwedig o ran denu myfyrwyr a bydd angen ymgymryd â gwaith cynllunio realistig i sicrhau cynlluniau ariannol cryf a chadarn ar gyfer y blynyddoedd nesaf. I gyflawni hyn bydd angen i'r brifysgol leihau costau a chynyddu incwm.

13. Dylid ymgymryd â gwaith modelu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gan edrych ar wahanol fodelau gan gynnwys +/-5%. Mae'n gynnar yn y cylch denu myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac mae pryder o hyd am ddenu myfyrwyr rhyngwladol. Mae angen i'r brifysgol gynyddu incwm a bod yn ymwybodol o'r busnes academaidd. Os na fydd modd cyflawni'r arbedion, dylid rhannu hyn gyda'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

14. Cymeradwywyd y diffyg arfaethedig yn y gyllideb o £4.3m.

15. Dylid cynnal diwrnod strategaeth ychwanegol ym mis Mawrth 2024 i drafod y sefyllfa, gyda golwg glir ar y camau nesaf a'r strategaeth ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

2. <u>Yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 (yn cynnwys y Cyfrifon Rheoli i gysoni Datganiadau Ariannol)</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhian Linehan a Stephen Harrison, Partneriaid Busnes Cyllid (COU2324-031).

NODWYD

1. Cyflwynwyd y drafft diweddaraf, yn amodol ar fân newidiadau pellach. Cafodd yr holl wybodaeth ei chyflwyno i KPMG gan y brifysgol o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Roedd angen gwaith ychwanegol, ac nid yw KPMG, hyd yma, wedi

cwblhau eu hadolygiad o'r cyfrifon. Cynhelir sgyrsiau rheolaidd rhwng staff y brifysgol a KPMG.

2. Unwaith y cytunir ar yr Adnodd Credyd Cylchdroawl, ni fydd busnes parhaus yn broblem i'r archwilwyr. Bydd y ddau Adnodd Credyd Cylchdroawl yn cael eu cyfuno i un adnodd. Mae'r banc wedi nodi eu bod yn cefnogi'r cais ac yn rhoi sicrwydd i KPMG o ran busnes parhaus.

3. Nododd yr aelodau sefyllfa'r llif arian a'r dyledion sydd heb eu talu gan WEFO yng nghyswllt prosiect yr Hen Goleg.

4. Bydd angen i swyddogion a'r Cyngor bwyso a mesur y rheolaethau a'r prosesau a arweiniodd at y diffyg yn y gyllideb. Mae rhai rheolaethau wedi gwella, gan gynnwys cofnodi ffigurau gwirioneddol yn hytrach na'r sefyllfa a ragwelir.

**PENDERFYNWYD**

5. Dylid cynnal cyfarfod pellach o Bwyllgor AR&S a'r Cyngor i ystyried a chymeradwyo'r cyfrifon terfynol [**GWEITHRED:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

3. <u>Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhian Linehan, Partner Busnes Cyllid a Stephen Harrison, Partner Busnes Cyllid (COU2324-032).

NODWYD

1. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar y gyllideb y cytunwyd arni'n flaenorol ac mae'n amlinellu sut mae'r diffyg wedi codi a'r heriau a wynebwyd. Mae'r sefyllfa wedi'i disodli gan benderfyniad y Cyngor, a nodwyd yng nghofnod 25.1.

2. Trafododd yr Aelodau feysydd allweddol oedd wedi gorwario ar eu cyllideb, a chwestiynwyd y prosesau i sicrhau bod cyllidebau'n cael eu gosod ar lefelau priodol. Byddai'r Is-Ganghellor yn trafod gyda'r penaethiaid adrannau perthnasol ac Adnoddau Dynol lle roedd heriau penodol o ran recriwtio staff a gwariant allanol.

3. Cadarnhawyd bod y tabl llif arian wedi'i gyhoeddi cyn y cytunwyd ar yr Adnodd Credyd Cylchdroawl. Mae'r sefyllfa bellach wedi gwella.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

4. <u>Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilwyr Mewnol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan TIAA (COU2324-033)

NODWYD

1. Roedd yr adroddiadau gan TIAA yn glir ac mae eu hargymhellion wedi bod yn rhesymol ac adeiladol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyodd yr Aelodau ddrafft o adroddiad blynyddol  yr Archwiliad Mewnol a nodi'r sgôr sicrwydd blynyddol.

5. <u>Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl 2023</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lee Pereira, Rheolwr Caffael (COU2324-034).

NODWYD

1. Rhaid i'r Brifysgol gydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern (2015) a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Trafodir yr ymrwymiadau yn y papur.

2. Roedd y camau gweithredu’n cynnwys parhau i ddatblygu'r gofrestr contractau, cynnal y gwiriadau cydymffurfio angenrheidiol o ran caethwasiaeth fodern, a chanolbwyntio ar sylfaen gyflenwyr y brifysgol yn y DU. Gwnaethpwyd gwaith hefyd gyda’r sector i ddeall y cadwyni cyflenwi. Mae nifer sylweddol wedi manteisio ar gofrestriad NETPositive Futures o fewn sylfaen cyflenwyr y brifysgol yn ystod 2022-23.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr Aelodau y datganiad, yn amodol ar gynnwys canllawiau a chymorth i'r rhai sy'n chwilio am gymorth yn y maes hwn.

6. <u>Perfformiad Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2324-035).

NODWYD

1. Rhwng 31 Gorffennaf 2022 a 31 Gorffennaf 2023, cynyddodd portffolio’r Cronfeydd Buddsoddi o £3.9 miliwn, yn bennaf o ganlyniad i ddau waddol newydd, enillion ar ailbrisio eiddo buddsoddi, ac incwm o fuddsoddiadau a oedd yn fwy na’r gwariant a wnaed.

2. Gwelodd portffolio’r cronfeydd Gwaddol a chronfeydd Buddsoddiadau eraill ostyngiad cyffredinol o £0.3 miliwn, o ganlyniad i warediad o'r Hen Goleg a gostyngiad ym mhortffolio gwerth buddsoddiadau ar y farchnad. Roedd gwarediad yr Hen Goleg yn unol â’r rhagolwg llif arian y cyllidwyd ar ei gyfer a gymeradwywyd gan y Cyngor, ond cafodd ei amlygu i'r Cyngor oherwydd y ffigurau mawr.

3. Mae strategaeth fuddsoddi wahanol yn cael ei chynnig gan Quantum Advisory, ymgynghorwyr buddsoddi'r Brifysgol o 1 Chwefror 2023. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Buddsoddiadau maes o law.

**PENDERFYNWYD**

4. Nododd yr aelodau y symudiadau yn y cronfeydd gwaddol a'r cronfeydd buddsoddi eraill.

7. Proses oruchwylio TRAC

DERBYNIWYD

Adroddiad gan David Haywood, Partner Busnes Cyllid Ymchwil (COU2324-036).

1. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gwblhau adroddiad TRAC (Dull Tryloyw o Gostio) yn flynyddol i'w gyflwyno i'r Swyddfa Fyfyrwyr, Cynghorau Cyllido, a CCAUC. Mae'r broses TRAC yn weithgaredd dirprwyedig sy'n cael ei oruchwylio gan Grŵp Trosolwg TRAC.

2. Mae materion a godwyd yn yr archwiliad mewnol yn cael sylw. Bydd gwiriadau rhesymol yn cael eu gwneud yn erbyn cofnodion blaenorol y Brifysgol a data diweddaraf y sector.

**PENDERFYNWYD**

3. Nododd yr aelodau y broses a ddilynwyd wrth gwblhau'r adroddiad TRAC a'i bod wedi cydymffurfio â Chanllawiau TRAC.

**26. MATERION LLYWODRAETHU**

1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i'r Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2324-037).

NODWYD

1. Nodwyd mai drafft oedd yr adroddiad, er gwybodaeth, nes bod yr archwilwyr wedi cwblhau eu gwaith. Roedd yr aelodau'n fodlon bod yr adroddiad yn adlewyrchu gwaith y pwyllgor a'r sylwadau drafft gan yr archwilwyr.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad, a chytunwyd y byddai drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor gyda fersiwn derfynol yr adroddiad blynyddol, a dogfennau diwedd blwyddyn cysylltiedig.

2. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU2324-038).

NODWYD

1. Nododd yr Aelodau waith a phenderfyniadau'r Pwyllgor Taliadau; cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Taliadau; y Datganiad Blynyddol ar Daliadau Uwch ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23; a'i gylch gorchwyl.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd yr adroddiad.

3. Adroddiadau blynyddol yr isbwyllgorau i'r Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2324-039).

NODWYD

1. Mae'r adroddiadau blynyddol yn cynnwys amlinelliad o waith y flwyddyn flaenorol, gan gyfeirio'n benodol at y materion a ystyriwyd ac a gymeradwywyd yn unol â'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt gan y Cyngor, yn ogystal ag amlinellu gwaith arfaethedig yr is-bwyllgor dros y misoedd i ddod.

2. Nodwyd un cywiriad, sef bod Kate Eden wedi mynychu 2 gyfarfod, nid 3 fel y rhestrwyd.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

4. Cynllun Gweithredu Arolwg o Effeithiolrwydd Llywodraethu

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol ac Ankita Trivedi, Swyddog Adnoddau Dynol (COU2324-040).

NODWYD

1. Yn hanesyddol, mae dau gynllun gweithredu wedi'u rhannu â'r Cyngor, drwy'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio, sef cynllun gweithredu Adolygiad Camm ac argymhellion yr Arolwg Effeithiolrwydd Llywodraethu. Fel y cytunwyd ym mis Mai 2023, cafodd yr argymhellion a'r camau dilynol eu hymgorffori mewn un cynllun gweithredu a diweddarwyd y camau gweithredu yn unol â hynny.

2. Dylai Ysgrifennydd y Brifysgol ystyried sut mae'r camau gweithredu parhaus yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu, o'i gymharu â'r camau a 'gwblhawyd' [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

**PENDERFYNWYD**

3. Cytunodd yr Aelodau â'r cynllun gweithredu diwygiedig.

5. Datganiad Sicrwydd Blynyddol i CCAUC a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-041).

NODWYD

1. Mae'r templed, a'r atodiadau cysylltiedig, a ddarparwyd gan CCAUC eleni yn debyg i'r llynedd. Mae’r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer Atodiad C: aelodaeth y Cyngor wedi deillio'n rhannol o'r datganiadau a wnaed gan aelodau yn rhan o fatrics sgiliau'r corff llywodraethu. Roedd papur trosolwg yn rhoi sicrwydd y gellid cytuno â datganiadau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y datganiad a'r atodiadau cysylltiedig.

6. Penodi i is-fwrdd ArloesiAber

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol.

NODWYD

1. Ymddeolodd yr Athro Colin McInnes o'i rôl fel Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi ym mis Awst 2023. Olynwyd ef gan yr Athro Angela Hatton. Cynigiwyd bod yr Athro Hatton yn cymryd lle'r Athro McInnes fel Cyfarwyddwr ArloesiAber Ltd.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd yr argymhelliad.

7. Enwebiadau am Raddau er Anrhydedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2324-042).

NODWYD

1. Yn dilyn proses enwebu a gafodd ei hysbysebu’n eang, roedd y Grŵp Graddau er Anrhydedd wedi cytuno ar restr fer ar gyfer graddau er anrhydedd.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyodd y Cyngor y rhestr fer a gynigiwyd ar gyfer graddau er anrhydedd.

8. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio: Adolygu i Bwyllgor Llywodraethu a Diwylliant

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-043).

NODWYD

1. Yn dilyn gweithdy a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio, cododd argymhelliad o ran newid enw'r pwyllgor i 'Lywodraethu a Diwylliant'

2. Byddai newid enw'r pwyllgor hefyd yn mynd i'r afael yn rhannol ag argymhellion 15 a 17 yn Adolygiad Camm ac roedd yn newid amlwg i sicrhau bod diwylliant yn cael ei drafod a'i ystyried gan y Cyngor, a'i bwyllgorau.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd y Cyngor newid enw'r pwyllgor i 'Bwyllgor Llywodraethu a Diwylliant."

## 27. GORUCHWYLIO ANSAWDD ACADEMAIDD

1. <u>Datganiad o Sicrwydd Ansawdd (gan gynnwys Datganiad Blynyddol UM a'r Datganiad ar Ganlyniadau Graddau)</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, y Dirprwy Gofrestrydd (COU2324-044).

NODWYD

1. Nododd yr Aelodau'r nifer uchel o apeliadau academaidd a sefydlu Grŵp Llywio Gwaith Achosion Myfyrwyr newydd i ystyried disgyblaeth, cwynion, apeliadau ac adolygiadau terfynol i ddarparu gwell trosolwg o'r gweithdrefnau cynyddol gymhleth a risg uchel. Nodwyd bod y maes hwn yn dod yn fwyfwy heriol ar draws y sector.

2. Trafododd yr Aelodau adrodd yn erbyn ethnigrwydd yng nghyswllt canlyniadau graddau. Nodwyd ei fod yn cael ei drafod yn eang ar draws y sector ac, o ganlyniad i nifer gymharol fach, roedd hi'n anodd cael gwybodaeth bendant. Fodd bynnag, dylid cynnwys hyn yn yr adroddiad [**GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd].

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd yr adroddiad a chymeradwywyd y datganiadau ynghylch Sicrwydd Ansawdd.

2. <u>Llywodraethu Academaidd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr)

NODWYD

1. Trafododd yr Aelodau yr opsiwn o sefydlu pwyllgor ar wahân i'r Cyngor i graffu ar Sicrwydd Ansawdd. Ar hyn o bryd rhennir briff blynyddol gyda'r Cyngor, a chynhelir adolygiadau allanol gan yr ASA a CCAUC.

2. Nid oedd unrhyw beth yn achosi pryder i'r aelodau yng nghyswllt y mater, ond nodwyd bod y Cyngor yn teimlo bod ganddo oruchwyliaeth a chyfranogiad cyfyngedig o ran sicrwydd ansawdd.

**PENDERFYNWYD**

3. Dylid ystyried goruchwyliaeth Sicrwydd Ansawdd yn rhan o adolygiad allanol o lywodraethu [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

4. Dylid gwahodd y Cofrestrydd Academaidd Dros Dro i friffio'r Cyngor mewn sesiwn briodol [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**28. ADRODDIADAU / DATGANIADAU BLYNYDDOL**

1. Datganiad Blynyddol ar Gyflogau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU2324-046).

NODWYD

1. Paratoir y datganiad polisi cyflogau ar sail argymhellion Llywodraeth Cymru am dryloywder taliadau staff uwch yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

2. Mae’r Brifysgol wedi'i hachredu'n gyflogwr Gwir Gyflog Byw, ac nid oes yr un o'r gweithwyr yn cael cyflog is na'r hyn a ddiffinnir ar gyfer Gradd 3, Pwynt 6, sef £10.90 yr awr ar 31 Gorffennaf 2023.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd y Datganiad Blynyddol ar Gyflogau.

2. Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Claire Williams, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd (COU2324-047).

NODWYD

1. Nodwyd y cynnig sy'n ymwneud â strategaeth Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd newydd, ynghyd â'r calendr hyfforddi ar gyfer 2023-24 a'r archwiliad sydd i ddod gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Nodwyd yr ystadegau cofnodi digwyddiadau hefyd, a dylid darparu diweddariadau ar unrhyw wersi a ddysgwyd o'r ymchwiliadau [**GWEITHREDU:** Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd].

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol, a nodwyd y diweddariad.

3. Adroddiad Blynyddol rhaglen 'Prevent'

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) (COU2324-048)

NODWYD

1. Trafododd yr aelodau yr angen i'r holl staff gwblhau'r hyfforddiant ar-lein a chytunwyd y dylid ei hyrwyddo i'r holl staff a'i dargedu tuag at feysydd allweddol y brifysgol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol.

4. Datganiad Blynyddol ar Berfformiad Rheoli Carbon

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dewi Day, Swyddog Cynaliadwyedd (COU2324-049).

NODWYD

1. Mae cynghrair werdd Pobl a'r Blaned (sy'n meincnodi cynaliadwyedd o fewn y sector AU) yn clustnodi pwyntiau yn seiliedig ar fonitro perfformiad carbon. I ennill pwyntiau yn yr adran hon, rhaid i'r brifysgol gael datganiadau monitro perfformiad cyhoeddus. Byddai'r crynodeb o berfformiad allyriadau CO2 yn mynd i'r afael â'r gofynion hynny.

2. Mae'r Brifysgol wedi gwella ei methodolegau casglu data yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ers ymgysylltu â chymorth strategaeth Sero Net. Roedd cyfanswm yr allyriadau net 29% yn is o'i gymharu â blwyddyn sylfaen 2019/20.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr aelodau yr adroddiad a'r cais i gyhoeddi perfformiad allyriadau CO2 y brifysgol ar y wefan.

**29. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2324-049).

NODWYD

1. Mae cyfanswm cost y prosiect wedi cynyddu £400,000 ers yr adroddiad diwethaf, o ganlyniad i ffioedd proffesiynol ac estyniad tebygol o tua 18 wythnos i'r rhaglen waith.

2. Mae'n annhebygol y bydd yr arian wrth gefn sy'n weddill yn ddigonol ar gyfer gweddill y prosiect a byddai'n hanfodol cadarnhau cyllid ychwanegol. Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn parhau i fod o fewn y cyfraniad a'r tanysgrif a gymeradwywyd gan y Brifysgol. Trafodwyd adroddiad yn amlinellu'r gweithgareddau codi arian sydd ar y gweill.

3. Trafododd yr Aelodau gytundeb cychwynnol y Cyngor, sef bod gofyn i'r brifysgol danysgrifennu £13.5m i sicrhau cyllid grant. Y bwriad oedd clustnodi tua £8-9m.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad. Roedd sicrhau codi arian ychwanegol yn hanfodol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol y brifysgol.

**30. YSTADAU, CYFLEUSTERAU A PHRESWYLFEYDD**

1. Uwchgynllun Ystadau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ms Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2324-051)

NODWYD

1. Gwnaed cynnydd cymedrol dros y misoedd diwethaf. Roedd y drefn wedi newid er mwyn galluogi cynnydd pan fo cyfleoedd yn codi. Gwnaed cynnydd da mewn mannau addysgu ac ymchwil.

2. Mae'r tîm yn aros am ganfyddiadau a chanlyniadau adolygiadau cyn dechrau gwaith pellach ym Mhantycelyn a Gogerddan.

**PENDERFYNWYD**

2. Nododd yr Aelodau'r cynnydd a wnaed yng ngoleuni'r Uwchgynllun Ystadau.

2. Gwaredu asedau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ms Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2324-052)

NODWYD

1. Mae cyfartaleddau'r farchnad wedi cael eu rhagori ym mhob achos. Nid yw unrhyw werthiannau yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn y gyllideb.

2. Mae'r Brifysgol yn aros am adroddiad gan y gwerthwyr tai yng nghyswllt gwerthu campws Llanbadarn.

3. Er y gellid cwblhau rhai gwerthiannau yn weddol gyflym, roedd eraill angen diwydrwydd dyladwy a phrisiadau pellach.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd y cynigion, a'r defnydd dilynol o Sêl y Brifysgol i sicrhau eu bod wedi'u cwblhau.

**31. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2324-053);
PENDERFYNWYD

1.1. Cymeradwywyd y gofrestr risg ddiwygiedig.

2. Diwygiadau i Archwaeth Risg a Matrics y Sefydliad (COU2324-054);

**PENDERFYNWYD**

4.2. Cymeradwywyd y diwygiadau.

3. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2324-055);

4. Digwyddiadau Difrifol y rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn Elusennau amdanynt (COU2324-056);

5. Adroddiad Blynyddol ar ddatganiadau o fuddiannau a rhoddion a dderbyniwyd (COU2324-057);

6. Adroddiad Blynyddol Moeseg Ymchwil (COU2324-058);

7. Datganiad Uniondeb Blynyddol (COU2324-059);

8. Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2022-23 (COU2324-060);

**PENDERFYNWYD**

8.1. Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol.

9. Polisi Grant Safonau'r Gymraeg (COU2324-061);

**PENDERFYNWYD**

9.1. Cymeradwywyd y polisi.

10. Adroddiad ar gwynion ynglŷn â Safonau'r Gymraeg Chwefror 2022 - Gorffennaf 2023 (COU2324-062);

11. Adroddiad ar Weithgaredd Seiberddiogelwch (COU2324-063); ac

12. Adroddiad Partneriaethau Academaidd (COU2324-064)

NODWYD

13. Cyflwynwyd cynnwys yr adroddiadau er gwybodaeth.

**32. ADRODDIADAU GAN IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion is-bwyllgorau’r Cyngor (COU2324-065):

NODWYD

Yr adroddiadau a ddaeth o’r is-bwyllgorau.

## 33. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL

Nodwyd mai hwn fyddai’r cyfarfod olaf o’r Cyngor i’r Cadeirydd a'r Is-Ganghellor. Diolchwyd i'r Athro Treasure am ei chyfraniadau sylweddol a'i harweinyddiaeth ysbrydoledig. Diolchwyd hefyd i'r Cadeirydd am ei arweinyddiaeth sicr o'r Cyngor, a'i gefnogaeth i'r Is-Ganghellor a chymuned y Brifysgol yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Mae’n bosibl y cynhelir cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor ar 18 Rhagfyr 2023, yn amodol ar dderbyn y cyfrifon terfynol wedi’u harchwilio.

Bydd dau gyfarfod nesaf y Cyngor yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn Aberystwyth, y ddau gyda sesiynau ychwanegol cyn cyfarfod y Cyngor i ystyried strategaeth y brifysgol a'r sefyllfa ariannol.